Cwmni

Rhifyn 180 Pris 80c Mawrth 2016



Mae mwy o luniau'r artist leol Emma Sian Pritchard y tu mewn.

Emma Sian Pritchard

Yn enedigol o Gasnewydd treuliodd Emma ran fwyaf ei phlentyndod yn ardal y Gelli Aur ger Llandeilo gan fynychu Ysgol Gyfun Tregib cyn mynd ymlaen i astudio Celf yn y coleg yng Nghaerfyrddin. Mae bellach yn byw yng Nghwm Corwg. Ble? Ie, cymuned fach ger Argoed y Coed Duon yw hwnnw.

Bu llawer ohonom yn edmygu'r gwaith o'i heiddo yn Eisteddfod yr Urdd yn Llancaeach Fawr y llynedd lle'r oedd hi'n un o'r beirniaid celf. Mae hi hefyd yn aelod o bwyllgor canolog Celf yr Urdd.

Mae wedi bod yn artist amser llawn ers 13 mlynedd ond roedd yn gwerthu ei gwaith am20 mlynedd cyn hynny. Bu cyfnodau diddorol yn ei datblygiad fel artist wrth iddi fynd o baentio'r blodau hyfryd a welwyd yn Llancaeach Fawr i weithiau mwy abstract.